
# Huw



Tric a Chlic 3



Roedd Huw yn byw mewn fflat ar y rhiw yn y pentref a heddiw roedd e yn y gwely.





Roedd yn gorwedd o dan y blancedi piws, cynnes yn teimlo'n sâl. Roedd rhywbeth mawr yn bod arno. Doedd e ddim eisiau codi ac roedd lliw od arno.




Daeth ei fam i mewn i'r ystafell wely i weld oedd eisiau bwyd arno.





"O! Huw. Beth sy'n bod? Rwyt ti'n edrych yn llwyd. Wyt ti eisiau uwd i'w fwyta?" gofynnodd.



"Dim diolch," atebodd Huw.
"Rydw i'n sâl."





"Wyt ti eisiau cawl cyw iâr?"



"Dim diolch," atebodd Huw.
"Rydw i'n sâl."






Druan o Huw. Tybed beth
sy'n bod arno?



Mae Huw yn y ffliw!





Rhaid iddo aros yn y gwely cynnes.

Rhaid iddo guddio o dan y blancedi piws. Druan o Huw.



